

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol): UCAC

E-bost: rebecca@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

Cynllunio Strategol

Cwestiwn 1:

Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gyfrannu at waith cynllunio strategol ar lefel genedlaethol ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Cytunwn y byddai'n ddymunol i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gael ei gynllunio mewn modd mwy strategol, a chytunwn *mewn egwyddor* i rôl Comisiwn Addysg Trydyddol ac Ymchwil Cymru yn y cyswllt hwn.

Fodd bynnag, ni theimlwn fod digon o fanylder yn y ddogfen ymgynghorol i allu cytuno mewn modd penagored. Mae llawer fawr iawn o gwestiynau heb eu hateb. Nid ydym yn argyhoeddedig bod y ddogfen wedi mynd i'r afael o gwbl â'r cymhlethdodau o ran cynnwys 6ed Dosbarth ysgolion o fewn cylch gwaith y Comisiwn.

Mae gormod o gwestiynau'n parhau heb eu hateb, felly, i ni allu derbyn y byddai'n addas i'r Comisiwn fod yn gyfrifol am weithio'n strategol ledled y system addysg.

Cwestiwn 2:

A ddylai Cytundebau Deilliannau fod yn sylfaen i berthynas cynllunio strategol y Comisiwn â sefydliadau a darparwyr? Os felly, pa gamau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw Cytundebau Deilliannau yn hyrwyddo meddylfryd tymor byr ymysg sefydliadau?

Mae'n ymddangos yn rhyfedd bod y cwestiwn hwn yn ymddangos mor gynnar yn yr ymgynghoriad a hynny cyn i unrhyw opsiynau eraill gael eu cyflwyno a'u gwyntyllu (e.e. y mathau eraill o gytundebau a grybwyllir ar dudalen 13).

Mae'r syniad o Gytundebau Deilliannau yn ymddangos fel un opsiwn posib gwerth ei ystyried, ac y gallai bod manteision iddynt fel sylfaen i berthynas cynllunio strategol. Fodd bynnag, mae angen mwy o gig ar yr asgwrn cyn gallu dod i benderfyniad hyderus am hyn. Mi fyddai enghreifftiau o'r mathau o ddeilliannau wedi bod yn ddefnyddiol.

Unwaith eto, nid yw sefyllfa ysgolion yn glir ac nid oes sylw'n cael ei roi i bwysigrwydd a gwerth pynciau safon uwch fel llwybr i addysg uwch - a'r llwybr gyrfa posib o'r ysgol i'r brifysgol. Gyda 70% o ddysgwyr sydd yn dychwelyd i astudio yn dilyn diwedd addysg orfodol yn dewis gwneud hynny mewn ysgolion, mae'r diffyg sylw i ysgolion a sut allai unrhyw drefniadau newydd fod yn addas neu beidio iddynt yn syndod.

Un Sefydliad Cyllido

Cwestiwn 3:

Ydych chi'n cytuno y dylai cyllid ar gyfer y Comisiwn ddibynnu ar lunio cynllun strategol wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru?

Cytunwn ar y cyfan.

Nid oes sôn yn yr adran hon am Ddosbarthiadau Chwech ysgolion. Nid yw'r glir ai'r bwriad yw cynnwys Dosbarthiadau Chwech yn y Cynllun Strategol nac yn y cynnig i greu un sefydliad cyllido.

Cwestiwn 4:

Ydych chi'n cytuno y dylai cymhwysedd darparwr ar gyfer cyllid ddibynnu ar lunio Cytundeb Deilliannau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol yn y Cynllun Strategol?

Gallai hyn weithio o ran cyrsiau sydd yn ateb gofynion targedau perthnasol lle mae gwybodaeth gadarn ar gael am anghenion llwybrau gyrfa penodol e.e. dysgu seiliedig ar waith, cyrsiau galwedigaethol, rhai cyrsiau Safon Uwch a chysiau lle mae anghenion wedi eu hadnabod ar gyfer gweithlu'r dyfodol.

Fodd bynnag, rhaid derbyn na fydd hyn yn bosib ar gyfer pob maes.

Cwestiwn 5:

Ydych chi'n cytuno y dylai lefelau cyllid ddibynnu, mewn unrhyw ffordd, ar berfformiad darparwr yn erbyn ei Gytundeb Deilliannau?

Mae cyllid yn dibynnu ar berfformiad yn codi cwestiynau pwysig. Os ydyw'n fwriad i geisio lleihau cystadleuaeth rhwng sefydliadau yn y sector ôl-orfodol, sut disgwylir gwneud hyn trwy ariannu rhai sefydliadau'n well na'i gilydd? Bydd rhoi mwy o arian i rai sefydliadau sydd yn rhagori yn tynnu arian oddi wrth sefydliadau sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae ffactorau amrywiol yn cyfrannu at lwyddiant, gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad y sefydliad e.e. gall fod yn anoddach denu staff cymwys i rai ardaloedd, neu mi all fod yn anoddach dod o hyd i ystod eang o leoliadau gwaith.

Cwestiwn 6:

Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion i'r sefydliad, a/neu i Lywodraeth Cymru, os yw sefydliad mewn perygl ariannol difrifol?

Mae hynny'n ymddangos yn rhesymol.

Cwestiwn 7:

Os yw'r Comisiwn yn credu nad yw sefydliad yn hyfyw yn ariannol bellach, ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion priodol i Lywodraeth Cymru a pha fesurau diogelu y bydd eu hangen o bosibl?

Er bod rhinwedd i'r cynnig, byddai angen gofal yn y maes hwn, yn enwedig yng nghyd-

destun statws annibynnol rhai sefydliadau. Yn sicr byddai angen gosod mesurau diogelu yn eu lle o safbwynt hawl sefydliadau i reoli eu materion trefniadaethol eu hunain, ac i'w amddiffyn rhag ymyrraeth allanol amhriodol neu fympwyol. Byddem wedi disgwyl i'r ddogfen ymgynghorol wneud rhai cynigion i'r perwyl hyn.

Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Cwestiwn 8:

Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru?

Cytunwn y byddai cryfhau'r trefniadau yn fanteisiol i ddysgwyr.

Cwestiwn 9:

Os ydych chi, pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr na allant barhau i astudio eu cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws yn cau neu oherwydd methiant darparwr?

Mae nifer o elfennau y dylid eu hystyried o safbwynt dysgwr yn y sefyllfa hon, ac amddiffynfeydd y dylid rhoi yn eu lle:

- sicrhau bod gofynion penodol ynghylch y lleiafswm o amser y mae'n rhaid ei roi fel rhybudd pan fydd campws neu sefydliad yn cau, neu fod cwrs yn cael ei ddirwyn i ben
- gofynion penodol ynghylch darparu gwybodaeth glir ac amserol ynghylch sefydliadau eraill sy'n cynnig yr un cwrs neu gyrsiau, neu ddarpariaeth gyfatebol
- gofyniad i ddarparu trefniadau pontio, yn ôl yr angen, i hwyluso trosglwyddo i sefydliad newydd, a hynny ar ganol cwrs
- gofyniad i roi ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud a chlodiant, ac i ddarparu cyngor a chymorth i hwyluso trefniadau, yn ôl yr angen

Cwestiwn 10:

A ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau?

Mae'r cynnig yn ymddangos yn rhesymol.

Cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr

Cwestiwn 11:

Pa gymorth sydd angen ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr?

- Gwybodaeth glir a diduedd am gyrsiau, sefydliadau a llwybrau gyrfa posib
- Ystyriaeth i'r angen am drefniadau pontio i hwyluso'r trosglwyddiad

- Cyngor a chefnogaeth ynghylch trefniadau cludiant, ble fo hynny'n berthnasol
- Ystyriaeth i'r angen am gyngor neu gefnogaeth fugeiliol/ymarferol, er enghraifft os oes angen dirwyn cytundeb rhentu llety i ben yn sgil y trosglwyddiad

Cwestiwn 12:

Pa rôl, os o gwbl, y dylai'r Comisiwn newydd ei chyflawni er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith i hwyluso trefniadau trosglwyddo myfyrwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn ymysg dysgwyr?

Gellid ystyried gosod gofynion penodol ar ddarparwyr, yn dibynnu ar natur y darparwr, i sicrhau y darperir yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol.

Gallai'r Comisiwn ei hun fod yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol o ran darparwyr, cyrsiau, ffioedd, grantiau, ac ati.

Rheoli Cwynion Dysgwyr**Cwestiwn 13:**

A oes angen cyflwyno trefniadau datrys cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol na allant wneud cwyn i gorff annibynnol ar hyn o bryd?

Os oes, pa drefniadau datrys cwynion sydd angen eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Byddai, mi fyddai hynny'n rhesymol.

Sicrhau a Gwella Ansawdd**Cwestiwn 14:**

Pa fodelau y gallai'r Comisiwn eu defnyddio i greu Fframwaith Sicrhau Ansawdd sy'n cwmpasu darpariaeth o bob math?

Mae hwn yn gwestiwn anferth a chymhleth dros ben. Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn gwneud cyfiawnder â'r cymhlethdod a'r ystod eang o ffactorau y byddai angen rhoi sylw iddynt.

Cwestiwn 15:

A ddylai gwella ansawdd fod yn nodwedd allweddol o Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Comisiwn?

Mewn egwyddor, mae hynny'n rhesymol. Ond unwaith eto, bydd gofyn am ofal a sylw at fanylder wrth lunio a gweithredu system o'r fath er mwyn sicrhau ei fod yn gytbwys ac yn effeithiol.

Sicrwydd Ariannol a Llywodraethu

Cwestiwn 16:

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar rôl y Comisiwn yn y dyfodol yn ymwneud â phrentisiaethau yng Nghymru. Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ar ba newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru y mae Deddf 2009 yn darparu ar ei chyfer.

Rheoli Perfformiad a Risg

Cwestiwn 17:

Ydych chi'n credu bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ddigonol ac yn briodol?

Nid oes sôn yn yr adran hon o'r ddogfen ymgynghorol (ynghyd â mwyafrif y ddogfen) am addysg ôl-16 mewn ysgolion. Ni awgrymir y byddai ysgolion yn rhan o'r newidiadau hyn, ond nid oes cadarnhad i'r gwrthwyneb 'chwaith. Mae'r cwestiwn yn codi eto felly a ydyw'n fwriad i hyn fod **ledled** y system addysg ôl-16?

Disgwylir i Fframwaith Sicrhau Ansawdd weithredu fel bod cyrsiau a gynigir o ansawdd a bod y darparwyr yn gallu sicrhau bod yr addysgu a dysgu o safon. Yn y sector ysgolion ac Addysg Bellach mae Estyn yn gweithredu. Ni fyddwn yn dymuno gweld y trefniadau'n newid ar gyfer ysgolion o ystyried rôl Estyn ar gyfer addysg orfodol mewn ysgolion. Petai ysgolion yn cael eu cynnwys o fewn cyfrifoldeb y Comisiwn byddai angen bod yn ofalus iawn i beidio newid trefniadau a chreu cymhlethdodau a biwrocratiaeth ychwanegol, ddiangen, ac, o bosib, anfwriadol.

O ran Addysg Bellach mae'n bwysig peidio newid trefniadau heb ystyried a oes wir angen gwneud hynny, a beth yn union fyddai'r cyfiawnhad.

Yr unig gynnis sydd yma yw'r un i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Mae hynny yn ei hun yn ddigon synhwyrol, ond nid yw'n amlwg sut byddai cyhoeddi'r adroddiad yn 'sicrhau bod y Comisiwn neu'r darparwyr y mae'n eu cyllido yn gallu dylanwadu ar y broses genedlaethol o wneud polisi a helpu i lywio cynlluniau strategol cenedlaethol.'

Mae'r awydd i amddiffyn y sector rhag 'newid cyson a pheryglon newid nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth' yn glodwiw, ond nid yw'n amlwg y byddai adolygu'r cynllun strategol bob tair blynedd yn sicrhau hynny.

Cwestiwn 18:

Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

Ariannu teg a chynllun buddsoddi tymor canolig a hirdymor mewn addysg ôl-16 mewn ysgolion, Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu Seiliedig ar Waith.

Ymchwil ac Arloesi

Cwestiwn 19:

Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu pwyllgor Comisiwn â'r teitl Ymchwil ac Arloesi Cymru?

Mae'n ymddangos yn rhesymol i sefydlu pwyllgor i edrych yn benodol ar Ymchwil ac Arloesi.

Cwestiwn 20:

Ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu yn unol â'r hyn a nodir uchod er mwyn datblygu capasiti a gallu ymchwil ac arloesi yng Nghymru?

Mae'r angen i ddatblygu capasiti ar gyfer ymchwil yn allweddol. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at enghreifftiau o ymchwil pwysig fel rhan o strategaeth "Gwyddoniaeth i Gymru". Mae angen ystyried hefyd yr angen i ddatblygu capasiti ymchwil mewn meysydd allweddol eraill, e.e. yn ei adroddiad Dysgu Athrawon Yfory, pwysleisiodd yr Athro Furlong yr angen i ddatblygu capasiti ymchwil ym maes addysg ac addysgeg er lles byd addysg.

Amlinella'r ddogfen yn fras y peryglon a ddaw yn sgil HERA 2017 ar gyfer cyllido ymchwil yng Nghymru, a'r angen i greu amddiffynfa rhag hyn. Byddai gweithredu mewn ffordd fwy strategol a deinamig yn debygol o fod o gymorth i adeiladu capasiti. Mae'n ymddangos y byddai sefydlu pwyllgor mewn deddfwriaeth a fyddai'n atebol i Weinidogion Cymru trwy'r Comisiwn yn beth positif.

Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Cwestiwn 21:

Pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu rhoi ar waith i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig ymysg unigolion o grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

Rhaid sicrhau bod gwybodaeth a chyngor o safon am gyfleoedd amrywiol ôl-16 ar gael i ddarparu fyfyrwyr o bob oed a chefnidir, gan gynnwys gwybodaeth am gymorth sydd ar gael i gefnogi unigolion sy'n perthyn i grwpiau penodol.

Dylid sicrhau bod gwybodaeth benodol wedi'i thargedu at unigolion sy'n perthyn i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Yn ogystal, byddai darparu gwybodaeth am lwybrau dilyniant posib o ran sefydliadau lle mae'n bosib astudio, pynciau a chyfrwng iaith yn fanteisiol iawn.

Cwestiwn 22:

Sut gallem sicrhau bod mwy o fyfyrwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn aros ar gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a'u cwblhau?

Byddai rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol yn gamau i'r cyfeiriad iawn:

- cludiant
- trefniadau gofal plant
- hyblygrwydd o ran cyrsiau (rhan amser/llawn amser) a dulliau astudio (i'r sawl sy'n

gorfod gweithio i ennill bywoliaeth wrth astudio; hefyd ar gyfer y sawl sydd ag anabledd, cyflwr iechyd hir dymor neu sy'n llai abl yn gorfforol)

- lle bo angen talu ffioedd, sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael am natur y ffioedd a benthyciadau a'r costau ac amserlen o dalu nôl

Mesur effaith

Cwestiwn 23:

Sut gellir cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ehangu mynediad ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Casglu data penodol.

Casglu barn myfyrwyr am eu profiadau ac am unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu.

Cwestiwn 24:

A ddylid gosod dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefnidir economaidd-gymdeithasol, a dyletswydd i gyflwyno'r data i'r Comisiwn?

Gallai casglu'r data sicrhau bod gwybodaeth feincnodi ar gael er mwyn gallu gosod targedau recriwtio i gyrsiau. Awgrymwyn y dylid gwneud yr un fath ar gyfer myfyrwyr gydag anabledau /cyflyrau iechyd hir dymor/llai abl yn gorfforol.

Lleoliadau chweched dosbarth

Cwestiwn 25:

A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth? Os ydych chi, beth yw'ch rhesymau?

Er y dywedir yn yr adran hon fod 'addysg chweched dosbarth yn elfen arwyddocaol a hanfodol o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol', nid yw mwyafrif helaeth y ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at 6ed dosbarth ysgolion, ac nid yw'r ddogfen wedi mynd i'r afael o gwbl â'r cymhlethdodau fyddai ynghlwm â chynnwys cyfrifoldeb dros addysg ôl-16 mewn ysgolion mewn cylch gwaith y Comisiwn.

Credwn y byddai'n eithriadol o heriol i ddatgysylltu cynllunio cyrsiau addysg ôl-16 mewn ysgol oddi wrth addysg cyn-16 yn yr ysgol honno. Mae gan staff gyfrifoldebau sy'n pontio'r ddau gyfnod ac maent yn gwneud hynny'n llwyddiannus.

Mae ymdrechion i sefydlu Cwricwlwm Lleol a chydweithio ar draws darparwyr (ysgolion a cholegau addysg bellach) ers cyflwyno'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009) wedi llwyddo i leihau dyblygu a datblygu rhai cyfleoedd ychwanegol gwerthfawr iawn o ran cyrsiau galwedigaethol. Diffyg cyllid sydd erbyn hyn wedi lleihau'r cyfleoedd hynny, ac mae hynny'n destun rhwystredigaeth fawr i ysgolion sydd wedi gweld budd o'r cyfleoedd ychwanegol i'w dysgwyr, ac yn arbennig felly'r rhai fyddai fwyaf tebygol o ymddieithrio o addysg.

Mae Estyn yn monitro ansawdd addysgu a dysgu mewn ysgolion. Byddwn yn dymuno sicrhau bod trefniadau arolygu ar gyfer 6ed dosbarth mewn ysgolion yn parhau dan yr un gyfundrefn ag ar gyfer gweddill yr ysgol.

Nid yw'r ddogfen wedi mynd i'r afael ag addysg cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i ddau baragraff

byr iawn, heb unrhyw gwestiynau ymgynghori i gyd-fynd â nhw.

Collwyd y cyfle yn llwyr i drafod rôl dosbarthiadau chwech mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth ddarparu cyrsiau ôl-16 cyfrwng Cymraeg, ac i gymharu'r ystadegau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-orfodol mewn gwahanol sectorau. Mae'r rhain yn faterion gwbl berthnasol wrth symud i fyd cynyddol drydyddol, ac wrth symud i ffwrdd o ddsbarthiadau chwech. Byddid wedi disgwyl trafodaeth o'r materion hyn yn y ddogfen ymgynghorol.

Cydnabyddwn nad oedd adroddiad yr Adolygiad o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi adeg cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol hon; mae argymhellion perthnasol a phwerus yn yr adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd angen eu hystyried ar fyrder. Mae UCAC yn gefnogol iawn i'r argymhellion i ymestyn rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, a'r sector ôl-16 yn gyffredinol.

Cwestiwn 26:

A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu? Os ydych chi, nodwch eich rhesymau.

Er y gallwn weld rhinweddau mewn dulliau gweithredol mwy unedig a strategol, mae'n anodd gennym weld sut fyddai hyn yn bosib mewn perthynas â'r sector dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, gan fod pob elfen o'r llywodraethiant, sicrhau ansawdd, rheoleiddio ac ati'n wahanol.

Cwestiwn 27:

A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny maes o law?

Efallai. Yn sicr, mi fyddai angen llawer fwy o drafodaeth, ymgynghori a chynigion pendant cyn gallu symud ymlaen. Mae materion cymhleth a dyrys i'w datrys.

Rheoli'r berthynas Rhwng y comisiwn a darparwyr

Cwestiwn 28:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn newydd weithredu system gofrestru i hwyluso agwedd hyblyg ond cyson at ei ymgysylltiad â sefydliadau a darparwyr ledled yr ystod lawn o weithgarwch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol? Os ydych chi'n cytuno, pa fodel, os o gwbl, sy'n well gennych chi, a pham?

Teimlwn fod yr adran hon o'r ddogfen ymgynghorol a'i thrafodaeth o'r berthynas posib rhwng y Comisiwn a'r darparwyr yn amlygu dryswch ac aneglurder sy'n rhedeg drwy'r ddogfen gyfan ynghylch gwir bwrpas a diben y Comisiwn.

A yw'r pwyslais ar reoleiddio ac atebolrwydd, ar sicrhau gwerth am arian, ar gynllunio strategol, neu ar sicrhau ansawdd? Mae pob un o'r tri chynig â phwyslais ac effeithiau gwahanol. Hyd nes bod eglurder ynghylch pwrpas a bwriad y Comisiwn, mi fydd yn anodd iawn pennu model ar gyfer y berthynas rhyngddo a'r darparwyr.

Yr egwyddorion sylfaenol yw bod angen sicrhau model sy'n gallu dygymod ag amrywiaeth eang iawn y darparwyr dan sylw, ac sy'n osgoi biwrocratiaeth ychwanegol ddiangen i ddarparwyr a'r Comisiwn fel ei gilydd.

Llywodraethu Addysg Uwch

Cwestiwn 29:

Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar sut y gellid moderneiddio deddfwriaeth bresennol yn ymwneud â chorfforaethau addysg uwch (HECs) yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn gyfartal â darparwyr addysg uwch eraill, a'i hymgorffori o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- a ddylid dileu'r amodau presennol yn ymwneud â dogfennau llywodraethu HECs;
- a ddylid dileu'r gofyniad ar gyfer cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor ar gyfer diwygiadau penodol i ddogfennau llywodraethu HECs;
- a ddylid cadw neu ddileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddidymu HECs.

Cwestiwn 30:

Hefyd, rydym yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn ag a oes angen diwygio'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol i sefydliadau yng Nghymru yn sgil y broses o ddatblygu polisïau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn canolbwyntio ar y canlynol yn benodol:

- a ddylid cadw rôl y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â phwerau dyfarnu graddau ac theitl prifysgol yng Nghymru neu drosglwyddo cyfrifoldeb am ran o'r broses neu'r broses gyfan i'r corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol newydd;
- a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau ac theitl prifysgol, gan gynnwys y gofyniad yn ymwneud â hanes;
- a yw'r sylfaen benagored bresennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau yn parhau i fod yn briodol yn sgil y newidiadau cyllido a rheoleiddio yng Nghymru;
- a ddylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno pwerau dyfarnu graddau mwy hyblyg yng Nghymru, fel lefel baglor yn unig neu bynciau cyfyngedig;
- a ddylid ystyried pwerau i amrywio a dirymu pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru;
- a fyddai unrhyw newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a threfniadau dilysu yn gwella effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach.

Trefniadau pontio – Paratoi i weithredu

Cwestiwn 31:

Bydd diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio. A oes angen ystyried unrhyw faterion eraill?

Cwestiwn 32:

Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig (yn unol ag ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallent gael eu heffeithio'n benodol gan y cynigion hyn? Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Cwestiwn 33:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Mi allai sefydlu'r Comisiwn gael effeithiau positif, ond nid oes unrhyw ystyriaeth o hynny wedi'i rhoi yn y ddogfen ymgynghorol, ac mae'n amlwg nad yw wedi bod yn rhan o'r broses cynllunio, pan ddylai fod yn gwbl ganolog.

Mae'r diffyg ystyriaeth hwn yn syndod gan ystyried polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae rôl ganolog gan addysg ôl-orfodol o ran datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng Nghymru ar bob lefel, ac i baratoi gweithluoedd Cymraeg eu hiaith ar gyfer sectorau ar draws yr economi.

Cwestiwn 34:

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;a
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler yr ymateb i gwestiwn 33 uchod.

Cwestiwn 35:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

O ystyried fod y papur ymgynghorol yn galw ei hun yn Bapur Gwyn, mae'n brin iawn o gynigion pendant.

Nid oes darlun clir yn deillio o'r ddogfen, ac mae'n codi llawer fwy o gwestiynau nag y mae'n cynnig atebion iddynt. Mae meysydd creiddiol fel addysg ôl-16 mewn ysgolion, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'u hepgor bron yn llwyr.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

